



At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 4 Medi 2024

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 10 MEDI 2024** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN DRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 RHYBUDD O GYNNIG (Tudalennau 7 - 8)

Ystyried Rhybudd o Gynnig (copi ynghlwm).

4 PENODI IS-GADEIRYDD (Tudalennau 9 - 12)

Penodi Is-Gadeirydd y Cyngor am weddill blwyddyn ddinesig 2024/2025.

5 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

6 COFNODION (Tudalennau 13 - 20)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2024 (copi ynghlwm).

7 PENODI CYFARWYDDWR HAMDDEN SIR DDINBYCH CYFYNGEDIG

(Tudalennau 21 - 24)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (copi ynghlwm) ar benodi Cyfarwyddwr i Fwrdd Cyfarwyddwyr Hamdden Sir Dinbych Cyf.

8 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR SIR (Tudalennau 25 - 38)

Ystyried Rhaglen Waith y Cyngor a Rhaglen Waith Gweithdy'r Cyngor (copi ynghlwm).

9 RHYBUDD O GYNNIG (Tudalennau 39 - 40)

Ystyried Hysbysiad o Gynnig gan Grŵp Plaid Cymru (copi ynghlwm).

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR (Tudalennau 41 - 48)

Ystried rhaglen waith i'r dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cyngorydd Peter Scott (Cadeirydd)

Michelle Blakeley-Walker
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Ellie Chard
Kelly Clewett
Ann Davies
Karen Edwards
Pauline Edwards
Gwyneth Ellis
James Elson
Chris Evans
Hugh Evans
Justine Evans
Bobby Feeley
Jon Harland
Elen Heaton
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Hogg

Delyth Jones
Paul Keddie
Diane King
Geraint Lloyd-Williams
Julie Matthews
James May
Jason McLellan
Barry Mellor
Terry Mendies
Raj Metri
Merfyn Parry
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
Rhys Thomas
Andrea Tomlin
Cheryl Williams
David Williams
Elfed Williams

Carol Holliday
Alan Hughes
Hugh Irving
Alan James
Brian Jones

Eryl Williams
Huw Williams
Emrys Wynne
Mark Young

COPIAU I'R:

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

RHYBUDD O GYNNIG – Cynnig i ddiswyddo Arweinydd y Cyngor a'r Cabinet.

Ystyried cynnig a gyflwynwyd gan y Cyngorwyr Huw Hilditch-Roberts, Pauline Edwards, Geraint Lloyd-Williams, Paul Keddie, Merfyn Parry, Andrea Tomlin, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Williams, Karen Edwards a Chris Evans.

Dymunwn ddwyn cynnig gerbron i ddiswyddo'r Arweinydd, y Cyngorydd Jason McLellan a'i Cabinet. Mae digwyddiadau diweddar yn ymwneud ag arweinyddiaeth y cyngor wedi codi pryderon difrifol am eu heffeithiolrwydd. Mae gweithrediad trychinebus ac aneffeithlon y system ailgylchu gwastraff newydd, ynghyd â'r diffyg eglurder ac atebolrwydd a amlygwyd mewn papur briffio diweddar, wedi arwain at golled hyder yn llwyr ymhlith trigolion.

Yn fwy na hynny, mae sgîl-ffeithiau'r system newydd hon wedi rhoi straen sylweddol ar adrannau eraill o fewn Cyngor Sir Ddinbych, wrth i adnoddau staff gael eu dargyfeirio i fynd i'r afael â methiannau'r fenter ailgylchu. Mae'r dargyfeiriad hwn wedi arwain at gynnydd amlwg mewn costau gweithredu, sydd yn ei dro wedi cael effaith negyddol ar wasanaethau rheng flaen sy'n hanfodol i'r gymuned.

Mae diffyg strategaeth ac arweiniad effeithiol wedi achosi cryn her i drigolion ledled y sir, ac mae'r goblygiadau ariannol i'r awdurdod wedi bod yn aruthrol. Nid yw bellach yn gynaliadwy cynnal y dull hwn, a rhaid rhoi'r flaenoriaeth i les trigolion Sir Ddinbych. Felly, fel aelodau o'r grŵp annibynnol, galwn yn gryf ar yr Arweinydd a'i Cabinet i ymddiswyddo.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod	10 Medi 2024
Pennaeth Gwasanaeth	Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl
Awdur yr adroddiad	Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Teitl	Penodi Is-gadeirydd y Cyngor

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y trefniadau ar gyfer penodi is-gadeirydd y Cyngor am weddill y flwyddyn ddinesig 2024/2025.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Penodir is-gadeirydd y Cyngor yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai bob blwyddyn. Ym mis Mai 2024 penododd y Cyngor y Cynghorydd Diane King i'r rôl, sydd bellach yn wag yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd King fel is-gadeirydd ym mis Gorffennaf 2024.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn penodi cynghorydd i swydd is-gadeirydd y Cyngor am weddill y flwyddyn ddinesig 2024 / 2025.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ym mis Mai 2024 penododd y Cyngor y Cynghorydd Diane King i rôl is-gadeirydd y Cyngor, gan gefnogi'r Cynghorydd Peter Scott yn ei rôl fel cadeirydd y Cyngor. Penodir is-gadeirydd y Cyngor am flwyddyn ddinesig, a daw i ben gyda chyfarfod blynyddol y Cyngor y mis Mai canlynol.

4.2. Traddodiad y Cyngor yw ethol is-gadeirydd presennol y Cyngor yn gadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol y flwyddyn ganlynol.

4.3. O ganlyniad i le gwag ar Gabinet Cyngor Sir Ddinbych, cynigiodd Arweinydd y Cyngor sedd ar y Cabinet i'r Cynghorydd King, ac mae'r Cynghorydd King wedi'i derbyn. Ni chaniateir i aelodau'r Cabinet ymgymryd â rolau dinesig cadeirydd neu is-gadeirydd y Cyngor, felly ymddiswyddodd y Cynghorydd King o'i rôl ddinesig ym mis Gorffennaf 2024 er mwyn dechrau ar ei dyletswyddau gyda'r Cabinet.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw rôl is-gadeirydd y Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar y cynllun corfforaethol, ond mae'n rôl allweddol wrth gefnogi cyfarfodydd y Cyngor llawn a chynrychioli'r Cyngor ar ystod o ddyletswyddau dinesig.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cyflog dinesig rôl is-gadeirydd y Cyngor yw £22,406 ar hyn o bryd. Mae'r ffigur yn cynnwys y cyflog sylfaenol a delir i bob aelod etholedig.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Ymgynghorwyd ag arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor ynghylch enwebu eu haelodau i rôl is-gadeirydd y Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn codi o'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg bosibl i enw da'r Cyngor a all ddeillio o unrhyw ansicrwydd yn yr ymgeiswyr arfaethedig ar gyfer y rôl ddinesig.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac adran 4 o gyfansoddiad y Cyngor.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Y CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2024 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Kelly Clewett, Ann Davies, Karen Edwards, Pauline Edwards, Gwyneth Ellis, James Elson, Chris Evans, Hugh Evans, Justine Evans, Bobby Feeley, Jon Harland, Elen Heaton, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Diane King (Is-gadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Julie Matthews, James May, Jason McLellan, Barry Mellor, Terry Mendies, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Peter Scott (Cadeirydd), Rhys Thomas, Andrea Tomlin, Cheryl Williams, David Williams, Elfed Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW); Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl (CR); Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HV-E); Swyddog Cynllunio a Pherfformiad (EH); Rheolwr Newid Hinsawdd (JH); Cydlynwyr Craffu (RE a KE); Swyddogion Cynnal a Gwe-ddarlledu Zoom (RT-J ac ED); a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Joan Butterfield, Delyth Jones a Raj Metri.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

3 MATERION BRYG Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Dim materion bryg.

Yn y fan hon, bu i'r Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan, longyfarch y Cynghorydd Gill German ar gael ei hethol yn AS yn yr etholiad cyffredinol diweddar.

Fe wnaeth y Cynghorydd McLellan hefyd longyfarch y Cynghorydd Martyn Hogg ar ei ymgyrch yn yr etholiad cyffredinol.

Bu iddo hefyd longyfarch y pedwar AS a fu'n llwyddiannus yn yr etholiad cyffredinol ar gyfer Gogledd Clwyd, Dwyrain Clwyd, Bangor Aberconwy a Dwyfor Meirionnydd.

Fe wnaeth y Cynghorydd Kelly Clewett longyfarch y Cynghorydd Gill German a dymuno'n dda iddi yn ei swydd fel AS Gogledd Clwyd.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 14 Mai.

Tudalen 11 – Gofynnodd y Cynghorydd Jon Harland a oedd ymateb ysgrifenedig wedi'i anfon at Mr Gonzalez, a oedd wedi cyflwyno cwestiwn yn y cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Julie Matthews ei bod wedi anfon ymateb ysgrifenedig ac y byddai'n rhannu'r llythyr gyda'r Cynghorwyr.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod polisi ynglŷn â pha faneri oedd yn chwifio ac ar ba ddiwrnodau roedd gwahanol faneri'n chwifio. Roedd darpariaeth yn y Cyfansoddiad i'r Cyngor wyro oddi wrth y polisi wrth ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd, ond y cyngor fel arfer oedd peidio â gwyro oddi wrth y polisi.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 14 Mai 2024 fel cofnod cywir.

5 STRATEGAETH HINSAWDD A NATUR CYNGOR SIR DDINBYCH (2021/22–2029/30) – ADOLYGIAD AC ADNEWYDDIAD BLWYDDYN 3

Cyflwynodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, y Cynghorydd Barry Mellor, adroddiad Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych (2021/22–2029/30) – Adolygiad ac Adnewyddiad Blwyddyn 3 (wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw).

Diolchodd y Cynghorydd Mellor i'r Cabinet am gefnogaeth unfrydol yr holl ffordd drwy waith caled yr adolygiad o'r Strategaeth yr oedd angen ei wneud bob tair blynedd. Roedd grŵp trawsbleidiol wedi'i ffurfio a diolchodd y Cynghorydd Mellor i holl aelodau'r grŵp am eu cyfraniad. Diolchodd yn arbennig i ddau aelod y Blaid Werdd am eu mewnbwn.

Manteisiodd y Cynghorydd Mellor ar y cyfle hefyd i groesawu Jane Hodgson, y Rheolwr Newid Hinsawdd, yn ôl i Gyngor Sir Ddinbych.

Roedd y Cyngor wedi datgan Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ym mis Gorffennaf 2019, gan ymrwymo i fod yn Gyngor Sero Net erbyn 2030 fan bellaf a gwella bioamrywiaeth ar draws y Sir.

Mabwysiadwyd y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22–2029/30) ym mis Chwefror 2021. Yn ogystal â bod yn Sero Net erbyn 2030, roedd y Cyngor i leihau'r allyriadau carbon o'r nwyddau a'r gwasanaethau oedd yn cael eu prynu (cadwyn gyflenwi'r Cyngor) o 35% erbyn 2030. Fe wnaeth y Cyngor hefyd newid y Cyfansoddiad ym mis Hydref 2020 fel bod rhaid i bob penderfyniad gan y Cyngor roi ystyriaeth i fynd i'r afael â newid hinsawdd a newid ecolegol.

Roedd y Strategaeth i gael ei hadolygu a'i hadnewyddu bob tair blynedd. Adolygiad ac adnewyddiad swyddogol cyntaf y Strategaeth oedd yr un yn 2023/24 ac roedd proses drylwyr wedi'i chwblhau yn rhan o'r adolygiad a'r adnewyddiad hwnnw.

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Llywodraethu a Busnes ac Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol, Gary Williams, hefyd ddiolch i Reolwr Dros Dro'r Rhaglen Newid Hinsawdd, Liz Willcox-Jones, yr holl swyddogion a'r Grŵp Trawsbleidiol am eu gwaith ar yr adolygiad a'r adnewyddiad.

Roedd y gweithgarwch a oedd wedi'i wneud yn rhan o'r adolygiad a'r adnewyddiad i'w weld yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Roedd y prif feysydd yn y Strategaeth a adolygwyd ac a ddiweddarwyd yn cynnwys –

- Newid yr enw i Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych (2021/22–2029/30) o Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021/22–2029/30).
- Ychwanegu tair adran newydd –
 - Lleihau allyriadau a chynyddu amsugniad ar draws Sir Ddinbych
 - Datblygu ein gwytnwch ar draws y sir, ac
 - Adfer natur ar draws Sir Ddinbych.
- Cyflwynwyd atodiad technegol hefyd, oedd yn cynnwys mwy o wybodaeth am feysydd lle'r oedd cyflawni'r targed angenrheidiol yn profi'n her.

Roedd ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein wedi'i gynnal rhwng 25 Mawrth a 20 Mai. Cafwyd 336 o ymatebion ac roedd 88% o'r preswylwyr a oedd wedi ymateb yn cytuno y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r ddogfen oedd wedi'i hadolygu fel ei Strategaeth.

Er mwyn galluogi i'r ddogfen sylweddol gael ei deall yn haws, roedd crynodeb gweithredol o'r Strategaeth wedi'i lunio ynghyd â fersiwn i bobl ifanc.

Dywedodd y Cyngorydd Martyn Hogg fod y broses a'r lefel o ymgysylltu wedi bod yn dda. Byddai cyrraedd statws sero net yn anodd a byddai angen i bawb wneud mwy.

Dywedodd yr Aelodau y byddai cyrraedd statws sero net erbyn 2030 yn her ac yn anfforddiadwy. Codwyd y cwestiwn pam nad 2050 oedd y dyddiad, a fyddai'n ymarferol, a dyna oedd y dyddiad roedd Llywodraeth Cymru'n gweithio tuag ato. Fe wnaeth Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau gadarnhau nad oedd uchelgais LIC wedi newid ac mai Cymru sero net erbyn 2050 oedd y targed wedi bod erioed, ond roedd targedau wedi bod ar gyfer y sector cyhoeddus erbyn 2040. Cadarnhawyd y byddai'r uchelgais o 2030 yn aros i sicrhau bod cymaint â phosib' yn cael ei gyflawni, yn ddibynol ar gyfyngiadau.

Roedd adroddiad Archwilio Cymru wedi dweud bod angen i'r sector cyhoeddus fod yn fentrus a gwneud penderfyniadau cadarn ac roedd adroddiad y Strategaeth wedi bod yn adroddiad gonest a beiddgar am y ffordd ymlaen.

Yn ystod y trafodaethau, codwyd yr elfen ariannol o gyrraedd statws sero net. Byddai'n costio £48 miliwn i gyrraedd statws sero net dros y chwe blynedd nesaf. Gan fod CSDd ac awdurdodau lleol eraill yn wynebu argyfwng ariannol, holwyd sut roedd hyn am gael ei ariannu.

Atebodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau gan ddweud bod yr arfarniad ariannol wedi bod yn seiliedig ar y carbon a gafodd ei arbed yn y tair blynedd gyntaf, faint roedd hynny wedi'i gostio ac yna

ymestyn hynny ar gyfer beth oedd ei angen yn y dyfodol. Nid oedd yn cynnwys y gofynion statudol ynghlwm â datgarboneiddio stoc dai CSDd. Byddai'r gwaith i gael ei wneud ar y stoc dai'n cael ei ariannu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai.

Roedd yn bwysig nodi nad oedd disgwyl i'r cyllid ar gyfer y cynlluniau oedd angen eu cyflawni ddod o gyllideb CSDd yn unig. Roedd y prosiectau a oedd wedi'u cyflawni hyd yma wedi'u hariannu gyda chyfran o 36% o gyllid grant allanol – canran roedd y Cyngor am geisio ei chynyddu dros y blynyddoedd nesaf. O fewn y cynllun ariannol tymor canolig roedd darpariaeth o £250,000 i ariannu benthyca darbodus.

Cadarnhawyd bod nifer o ffynonellau cyllid nad oeddent wedi'u labelu fel grantiau hinsawdd ond y gellid eu cynnwys ac ymgeisio amdanynt yn rhan o'r agenda hon.

Ni fyddai tir amaeth oedd yn eiddo i CSDd ond yn cael ei osod ar rent i ffermwyr oedd yn denantiaid yn cael ei gynnwys yn yr ystadegau.

Nodwyd yn yr adroddiad y byddai cynnydd yn y coedwigoedd a'r coetir roedd y Cyngor yn gofalu amdanynt. Gofynnwyd am ffigyrau'r costau a chadarnhaodd y swyddogion y byddent yn rhannu'r ffigyrau ar ôl y cyfarfod.

Codwyd mater ynghlwm â thorri glaswellt ond peidio â chlirio'r glaswellt wedyn. Cadarnhawyd bod contractwyr ar hyn o bryd yn torri glaswellt ond y byddent yn clirio'r glaswellt hwnnw cyn gynted â phosib'. Roedd gwaith yn cael ei wneud gyda'r tîm Cyfathrebu i gyfleu'r neges a byddai'r contractwyr yn torri mwy ar ddiwedd y tymor.

PENDERFYNWYD –

- (i) *Bod y Cyngor yn mabwysiadu Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych (2021/22–2029/30) (Atodiad 1);*
- (ii) *Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les yn rhan o'i ystyriaethau (Atodiad 2).*

6 HUNANASESIAD Y CYNGOR O'I BERFFORMIAD 2023/24

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Gwyneth Ellis, adroddiad ar Hunanasesiad y Cyngor o'i Berfformiad 2023/24 (wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw).

Yn y fan hon, diolchodd y Cynghorydd Ellis i Bennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau, Helen Vaughan-Evans, Iolo McGregor a oedd wedi gadael yr awdurdod lleol yn ddiweddar, a'r tîm am eu holl waith caled.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys Hunanasesiad y Cyngor o'i Berfformiad ar gyfer 2023/24, gan ddarparu'r dadansoddiad diwedd blwyddyn o gynnydd a heriau gyda'r amcanion perfformiad allweddol, h.y. themâu ein Cynllun Corfforaethol.

Roedd perfformiad yn cael ei fonitro'n rheolaidd, ac adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet bob chwe mis.

Roedd Atodiad 1 yn cyflwyno'r Crynodeb Gweithredol oedd yn ceisio nodi uchafbwyntiau perfformiad y Cyngor o gymharu â'r amcanion (h.y. themâu'r Cynllun Corfforaethol, sef yr amcanion Lles a Chydraddoldeb hefyd) a'r saith maes llywodraethu oedd wedi'u cynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Atodiad 2 oedd yr adroddiad Diweddariad ar Berfformiad chwarterol, sef y broses i hunanasesu'n barhaus, ac roedd yn cynnwys yr holl dystiolaeth a dadansoddiadau. Roedd yr atodiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y cyfnod o fis Hydref 2023 tan fis Mawrth 2024 a hwn oedd yr adroddiad perfformiad cyntaf o'r Cynllun Corfforaethol ar ôl ei adolygu.

Yr adroddiad Diweddariad ar Berfformiad ynghyd â'r Crynodeb Gweithredol a'r ddau adroddiad Diweddariad cyn hynny oedd yn ffurfio'r hunanasesiad ar gyfer 2023/24.

Roedd Atodiad 3 yn crynhoi'r camau gweithredu oedd yn deillio o'r holl Heriau Perfformiad Gwasanaethau a fu yn ystod y flwyddyn.

Roedd Atodiad 4 – Cwmpas: Asesiad Perfformiad Panel 2024, yn amlinellu'r mesuryddion y cytunwyd arnynt ar gyfer Asesiad Perfformiad Panel CSDd, i'w gynnal rhwng 9 Medi a 12 Medi 2024 (i'w gadarnhau ar ôl penodi'r Panel). Wedi'i hwyluso gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, roedd y trefniadau hyn yn cydymffurfio â dyletswydd y Cyngor i drefnu asesiad perfformiad panel o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Roedd chwe gwelliant wedi'u nodi yn Hunanasesiad Perfformiad 2023/24 –

- (i) Rhoi diweddariad ar y rhesymau dros y perfformiad gwael mewn perthynas â chanran y ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed.
- (ii) Y Strategaeth Economaidd newydd i ystyried arlwy ddiwylliannol y sir a sut roedd yn cyfrannu at ganlyniadau economaidd a lles ehangach.
- (iii) Ar ôl cytuno ac er mwyn i'r Cyngor allu canolbwyntio ar ddatblygu'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol, dwyn prosiect y Cynllun Cludiant Cynaliadwy i ben a diwygio'r ymrwymiad yn y Cynllun Corfforaethol.
- (iv) Ystyried yr ymatebion i Arolwg Budd-ddeiliaid 2023–2024.
- (v) Ystyried canfyddiadau ac argymhellion Gwiriwr Taith Ffyrdd Newydd o Weithio Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- (vi) Yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol anodd oedd ohoni, adolygu ymrwymadau a disgwyliadau perfformiad y Cynllun Corfforaethol yn barhaus.

PENDERFYNWYD –

- (i) *Bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo Hunanasesiad Perfformiad 2023–24;*
- (ii) *Bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r Cwmpas drafft ar gyfer yr Asesiad Perfformiad Panel (Atodiad 4).*

7 ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU CRAFFU'R CYNGOR

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Irving Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor ar gyfer 2023/24 (wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw).

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor Sir er mwyn cydymffurfio ag Adran 7.4.4 yng Nghyfansoddiad y Cyngor, a nodai fod rhaid i Bwyllgorau Craffu'r Awdurdod adrodd am eu gwaith yn flynyddol i'r Cyngor Llawn a gwneud argymhellion ar gyfer eu rhaglenni gwaith at y dyfodol ac ar gyfer newidiadau i ddulliau gweithio os oedd angen.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r gwaith craffu a wnaed cyn ac ar ôl penderfyniadau, ynghyd â gwaith monitro perfformiad, rheoli risg ac archwilio trefniadau gweithio mewn partneriaeth. Bwriad hyn oll oedd darparu gwasanaethau o safon mewn ffordd effeithlon er budd trigolion lleol, busnesau a chymunedau'r sir.

Roedd nifer o geisiadau craffu wedi dod i law yn ystod y flwyddyn o wahanol ffynonellau. Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau gan aelodau etholedig y llynedd, ond roedd y niferoedd wedi cynyddu ers dechrau blwyddyn newydd y Cyngor, a oedd yn galonogol.

Gofynnwyd i'r aelodau annog preswylwyr i gyflwyno ceisiadau ar gyfer eitemau oedd yn peri pryder iddynt er mwyn gallu craffu ar y materion hynny. Roedd modd gwneud cynigion am feysydd oedd yn peri pryder i Gynghorwyr fel eu cynrychiolwyr, neu'n uniongyrchol i swyddogion ar y ffurflen gynigion 'bapur' oedd yn yr adroddiad, neu'n electronig drwy'r wefan.

Roedd wedi bod yn gyfnod heriol ac roedd ymwybyddiaeth fod gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu penderfyniadau anodd wrth geisio ariannu sut roedd gwasanaethau hanfodol yn cael eu darparu. Gyda'r bwriad o gefnogi'r Cyngor i ymgymryd â'r gwaith hwn, byddai'r Pwyllgorau Craffu, hyd y gellir rhagweld, yn canolbwyntio cyfran eithaf sylweddol o'u hamser i waith ar osod a monitro'r gyllideb, yn ogystal ag archwilio'r cynigion a fyddai'n ffurfio rhan o Raglen Drawsnewid y Cyngor.

Roedd yr adroddiad ar ffurf drafft ar hyn o bryd, ond ar ôl ei gymeradwyo, byddai wedyn yn cael ei gyfieithu ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Yn y fan hon, diolchodd yr aelodau i'r Cydlynwyr Craffu, Rhian Evans a Karen Evans, am eu holl gefnogaeth a'u gwaith caled.

Yn dilyn pleidlais trwy godi dwylo, cytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r adroddiad.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor, ar ôl ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2023/24, yn cymeradwyo ei gyhoeddi.

8 AMSERLEN PWYLLGORAU 2025

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl, Catrin Roberts, adroddiad Amserlen Pwyllgorau 2025 (wedi'i dosbarthu ymlaen llaw).

Roedd angen i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2025 er mwyn gallu cadarnhau trefniadau ac adnoddau cyfarfodydd, cyhoeddi'r amserlen a llenwi dyddiaduron yr aelodau.

Manteisiodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl ar y cyfle i ddiolch i Kath Jones, yr Uwch Weinyddwr Pwyllgorau, am baratoi'r Amserlen a thrafod gyda swyddogion, gan fod angen trefnu'n ofalus iawn.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Amserlen Bwyllgorau ddrafft ar gyfer 2025 yn unfrydol.

9 PENODI CYFARWYDDWR – HAMDDEN SIR DDINBYCH CYFYNGEDIG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes adroddiad Penodi Cyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw).

Cadarnhawyd bod Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, wedi rhoi'r gorau i fod ar y Bwrdd, felly roedd angen i'r Cyngor benodi Cyfarwyddwr newydd i lenwi'r swydd wag.

Holwyd aelodau'r Tîm Arwain Strategol a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn derbyn y rôl ac fe wnaethant gytuno ar enwebu Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi, ar gyfer y swydd.

Holwyd a fyddai gan Tony Ward amser a nerth i ysgwyddo'r rôl ychwanegol o ystyried ei lwyth gwaith. Cadarnhawyd bod Tony Ward wedi cytuno i dderbyn y swydd pe bai'r Cyngor yn cymeradwyo hynny. Byddai'n cael hyfforddiant ac ni fyddai'n cychwyn yn y swydd tan fis Medi 2024.

Pleidleisiodd mwyafrif o'r aelodau oedd yn bresennol i gymeradwyo'r penodiad, felly –

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn penodi Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi, i fod yn Gyfarwyddwr i Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ('DLL').

10 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes, Gary Williams, Raglen Waith y Cyngor a Rhaglen Waith Gweithdai'r Cyngor.

PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Waith y Cyngor a Rhaglen Waith Gweithdai'r Cyngor.

DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 11.20 A.M.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod	10 Medi 2024
Aelod/Swyddog Arweiniol	Y Cyng. Jason McLellan, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd
Pennaeth Gwasanaeth	Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes
Awdur yr adroddiad	Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes
Teitl	Penodi Cyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am benodiad Cyfarwyddwr Bwrdd Cyfarwyddwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (y Bwrdd).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae swydd wag ar y Bwrdd ac mae'n ofynnol i'r Cyngor benodi Cyfarwyddwr newydd i lenwi'r swydd wag honno.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn penodi aelodau etholedig heb fod yn Aelod o'r Cabinet, i fod yn Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ('DLL').

3.2. Bod y Cyngor yn cadarnhau y bydd y Cyng Diane King yn parhau fel Cyfarwyddwr DLL ond yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Ar 30 Mai 2019 fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo creu cwmni masnachu Awdurdod Lleol nid er elw cyfyngedig drwy warant fel model darparu amgen ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden ar ran y Cyngor. Gelwir y cwmni hwn yn Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (DLL).
- 4.2. Y Cyngor yw unig berchennog ac aelod o Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig. Mae Erthyglau Cymdeithas y Cwmni yn nodi bod penodiad Cyfarwyddwyr i'r Bwrdd yn fater i'r Cyngor benderfynu arno.
- 4.3. Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr (y Bwrdd) yn gyfrifol am redeg y cwmni. Mae cyfansoddiad y Bwrdd ar hyn o bryd fel a ganlyn:
- Rheolwr Gyfarwyddwr - Jamie Groves,
- Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, Cyng Rhys Thomas
- Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd, Cyng Diane King
- Cyfarwyddwr Annibynnol x 2 (Paul McGrady a Sian Rodgers),
- Aelod etholedig nad yw ar y Cabinet - Swydd wag,
- Aelod o'r Tîm Arwain Strategol - Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi
- 4.4. Mae'r swydd ar y Bwrdd i gael ei llenwi gan aelod etholedig nad yw ar y Cabinet yn wag ar hyn o bryd. Mae'r Cyng Diane King, a benodwyd gan y Cyngor i'r rôl hon bellach yn Aelod Cabinet. Mae'r Cyng Gill German wedi ymddiswyddo o'i sedd ar y Bwrdd o ganlyniad i'w hetholiad i'r Senedd.
- 4.5. Bydd y Cyng King yn aros ar y Bwrdd, ond bydd yn gwneud hynny yn ei swydd newydd fel Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Theuluoedd.
- 4.6. Mae'n ofynnol i'r Cyngor yn unol â hynny benodi aelod etholedig heb fod ar y Cabinet i Fwrdd DLL.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

- 5.1. Nid yw'r adroddiad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar flaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gyda Chraffu. Gofynnwyd i Arweinwyr Grŵp ganfasio eu grwpiau am enwebiadau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Er nad oes yna unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o'r adroddiad hwn, mae'n bwysig bod trefniadau llywodraethu cadarn yn cael eu cynnal i helpu i leihau'r risg wrth symud ymlaen. Cefnogir yr adroddiad yn llwyr.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae yna risg na fydd swyddi gwag ar y Bwrdd yn darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth ddigonol i DLL.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

11.2 Erthygl 13 Erthyglau Cymdeithas Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod	10 Medi 2024
Aelod Arweiniol	Y Cyngorydd Julie Matthews, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol
Pennaeth Gwasanaeth	Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl
Awdur yr adroddiad	Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Teitl	Polisi'r Cyngor ar Hyfforddiant Aelodau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd faterion hyfforddi aelodau ym mis Mawrth 2024. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am bolisi hyfforddiant gorfodol arfaethedig i aelodau.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Y pwrpas yw adrodd i'r Cyngor llawn argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am bolisi hyfforddiant gorfodol i aelodau.

